# Profion Llythrennedd Cymraeg

# Gwybyddol

# Deunyddiau'r athro

**Cynnwys:**

1. Cyfuno seiniau
2. Ynysu seiniau
3. Seingoll

**G1. Cyfuno seiniau**

***Dwi'n mynd i ddweud cyfres o eiriau, un rhan ar y tro. Dwi eisiau i ti rhoi'r rhannau o eiriau yn ôl at ei gilydd fel bod nhw'n gwneud gair go iawn. Beth am drio un neu ddau i ddechrau?***

| Eitem | | Trawsgrifio | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwe – fan (gwefan) | | |

Os yn gywir: ***Da iawn! Mae "gwe" a "fan" yn gwneud "gwefan." Gadewch i ni drio un arall.***

Os yn anghywir: ***Trïa eto - gwe ... fan. Wyt ti'n gallu rhoi nhw at ei gilydd? Gwe ... fan.*** Gellir lleihau'r bwlch rhwng y ddwy ran o'r gair er mwyn hyfforddi'r disgybl sut i gyfuno'r synau. Os ydy'r unigolyn dal yn cael trafferth, fellir rhoi'r ateb ***gwefan*** a symud ymlaen i'r eitem ymarfer nesaf.

| Eitem | | Trawsgrifio | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 2 | rhyw – beth (rhywbeth) | | |

Os yn gywir: ***Da iawn! Mae "rhyw" a "beth" yn gwneud "rhywbeth." Gadewch i ni drio un arall eto.***

Os yn anghywir: ***Trïa eto – rhyw ... beth. Wyt ti'n gallu rhoi nhw at ei gilydd? Rhyw .. beth.*** Gellir lleihau'r bwlch rhwng y ddwy ran o'r gair er mwyn hyfforddi'r disgybl sut i gyfuno'r synau. Os ydy'r unigolyn dal yn cael trafferth, fellir rhoi'r ateb ***rhywbeth*** a symud ymlaen i'r eitem ymarfer nesaf.

| Eitem | | Trawsgrifio | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 3 | lliw – gar (lliwgar) | | |

Os yn gywir: ***Da iawn! Mae "lliw" a "gar" yn gwneud "lliwgar."***

Os yn anghywir: ***Trïa eto – lliw .. gar. Wyt ti'n gallu rhoi nhw at ei gilydd? lliw .. gar.*** Gellir lleihau'r bwlch rhwng y ddwy ran o'r gair er mwyn hyfforddi'r disgybl sut i gyfuno'r synau. Os ydy'r unigolyn dal yn cael trafferth, gellir rhoi'r ateb ***lliwgar.*** Os ydy'r unigolyn wedi methu ateb un o'r 3 eitem ymarfer, peidiwch symud ymlaen i weini'r prawf.

***Fe drïwn ni rhai o ddifri nawr. Gwranda ar y seiniau yn ofalus a'u cyfuno i wneud gair. Barod?***

| Eitem | | Trawsgrifiad | Sgôr |
|---|---|---|---|
| 4 | cwm – ni (cwmni) | | |
| 5 | hed – fan (hedfan) | | |
| 6 | uwch – radd (uwchradd) | | |
| 7 | di-gon (digon) | | |
| 8 | syn – iad (syniad) | | |
| 9 | ar – os (aros) | | |
| 10 | ed-rych (edrych) | | |
| 11 | llen – wi (llenwi) | | |
| 12 | ann – ŵyl (annwyl) | | |
| 13 | teu – lu (teulu) | | |

***Iawn. Nawr fe drïwn ni rhai lle dwi'n dweud rhannau hyd yn oed llai o'r geiriau. Gadewch i ni ymarfer yn gyntaf.***

**byddwch yn ofalus i ynganu geiriau sydd yn cynnwys y llythyren "rh" yn glir, sef eitemau 16 (rhoi), 18(rhad) a 30 (rhaglen)*

***Trïa'r rhain:***

| Eitem | | Trawsgrifiad | Sgôr |
|---|---|---|---|
| 14 | c – ar (car) | | |
| 15 | c – wm (cwm) | | |
| 16 | rh -oi (rhoi) | | |
| 17 | g – all (gall) | | |
| 18 | rh – ad (rhad) | | |
| 19 | b – yw (byw) | | |
| 20 | d – i – m (dim) | | |
| ***Peidiwch rhoi adborth o'r pwynt hwn.*** | | | |
| 21 | m – a – th (math) | | |
| 22 | p – e- ll (pell) | | |
| 23 | b – a – ch (bach) | | |
| 24 | b – a – ch – g – e – n (bachgen) | | |
| 25 | e – n – i – ll (ennill) | | |
| 26 | b – o – r – e (bore) | | |
| 27 | c – e – f – n (cefn) | | |
| 28 | g – w – o – b – r (gwobr) | | |
| 29 | d – a – th – l – u (dathlu) | | |
| 30 | rh – a – g – l – e – n (rhaglen) | | |
| 31 | c – l – y – w – e – d (clywed) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 32 | y – s – b – y – t – y (ysbyty) | | |
| 33 | m – a – r – ch – n – a – t – a (marchnata) | | |
| 34 | p – r- o – ff – e – sh – y – n - o – l (proffesiynol) | | |
| 35 | c – y – d – y- m – ff- u- r- f- i- o (cydymffurfio) | | |
| 36 | u – n – i – g – o – l – y – n (unigolyn) | | |
| **Marciwch 1 ar gyfer pop eitem cywir.** | | ***Cyfanswm*** | |

**G2. Ynysu seiniau**

***Rydw i'n mynd i ofyn i ti ddweud rhannau o eiriau nawr. Gwranda'n ofalus ac os nad wyt ti'n siŵr gallaf ailadrodd y cwestiwn unwaith.***

**byddwch yn ofalus i ynganu geiriau sydd yn cynnwys y llythyren "rh" yn glir, sef eitemau 5 (rhoi), 12 (rhan), 16 (rhedeg) a 26 (rhannol).*

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| **1** | ***Mae tair sain yn y gair "cath" – c- a – th. Beth yw'r sain gyntaf yn y gair "cath"?*** | **c** | |

Ateb: "c." Os yn gywir, dwedwch ***Da iawn - "c" yw sain gyntaf y gair cath.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***Gwranda eto: c – a – th. "C" yw sain gyntaf y gair cath. Wyt ti'n gallu ei glywed? C – a – th.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| **2** | ***Mae tair sain yn y gair "pen" – p – e - n. Beth yw'r sain gyntaf yn y gair "pen"?*** | **p** | |

Ateb: "p." Os yn gywir, dwedwch ***Da iawn - "p" yw sain gyntaf y gair pen.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***Gwranda eto: p – e - n. "P" yw sain gyntaf y gair pen. Wyt ti'n gallu ei glywed? P – e - n.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 3 | ***Mae tair sain yn y gair "cam" – c- a – m. Beth yw'r sain olaf yn y gair "cam"?*** | **m** | |

Ateb: "m." Os yn gywir, dwedwch ***Da iawn - "m" yw sain olaf y gair cam.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***Gwranda eto: c – a - m. "C" yw sain olaf y gair cam. Wyt ti'n gallu ei glywed? C – a - m.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem – *dim adborth* | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 4 | ***Beth yw'r sain gyntaf yn y gair "llaw"?*** | **ll** | |
| 5 | ***Beth yw'r sain gyntaf yn  y gair "rhoi"?*** | **rh** | |
| 6 | ***Beth yw'r sain gyntaf yn y gair "hen"?*** | **h** | |
| 7 | ***Beth yw'r sain olaf yn y gair "cwm"?*** | **m** | |
| 8 | ***Beth yw'r sain olaf yn y gair "gall"?*** | **ll** | |
| 9 | ***Beth yw'r sain olaf yn y gair "math"?*** | **th** | |
| 10 | ***Beth yw'r sain ganol yn y gair "tir"?*** | **i** | |
| 11 | ***Beth yw'r sain ganol yn y gair "peth"?*** | **e** | |
| 12 | ***Beth yw'r sain ganol yn y gair "rhan"?*** | **a** | |

***Nawr symudwn ni ymlaen at eiriau sydd gyda mwy na thair sain.***

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 13 | ***Mae pedair sain yn y gair "corff" – c – o – r – ff. Beth yw'r ail sain yn y gair "corff"?*** | **o** | |

Ateb: "o." Os yn gywir, dwedwch ***Da iawn - "o" yw'r ail sain yn y gair corff. Trïa un arall.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***Gwranda eto: c – o – r - ff. "O" yw ail sain y gair corff. Wyt ti'n gallu ei glywed? C – o – r - ff.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 14 | *Mae pedair sain yn y gair "mawr". Beth yw'r drydedd sain yn y gair "mawr"?* | **w** | |

Ateb: "w." Os yn gywir, dwedwch ***Da iawn – "w" yw'r drydedd sain yn y gair "mawr".*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***Gwranda eto: m – a – w - r. "W" yw'r drydedd sain yn y gair "mawr". Wyt ti'n gallu ei glywed? M – a – w - r.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 15 | *Mae pump sain yn y gair "gofyn". Beth yw'r drydedd sain yn y gair "gofyn"?* | **f** | |
| 16 | *Mae pump sain yn y gair "rhedeg". Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "rhedeg"?* | **e** | |
| ***Cywirwch fel uchod ac yna symudwch ymlaen i'r eitemau nesaf.*** | | | |

| Eitem – *dim adborth* | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 17 | *Beth yw'r ail sain yn y gair "corff"?* | **o** | |
| 18 | *Beth yw'r ail sain yn y gair "trin"?* | **r** | |
| 19 | *Beth yw'r drydedd sain yn y gair "mynd"* | **n** | |
| 20 | *Beth yw'r drydedd sain yn y gair "troi"?* | **o** | |
| 21 | *Beth yw'r drydedd sain yn y gair "pwnc"?* | **n** | |
| 22 | *Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "balch"?* | **ch** | |
| 23 | *Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "meddwl"?* | **w** | |
| 24 | *Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "gwella"?* | **ll** | |
| 25 | *Beth yw'r ail sain yn y gair "profi"?* | **r** | |
| 26 | *Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "rhannol"?* | **o** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **27** | ***Beth yw'r drydedd sain yn y gair "enwog"?*** | **w** | |
| **28** | ***Beth yw'r drydedd sain yn y gair "amlwg"?*** | **l** | |
| **29** | ***Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "cyfle"?*** | **l** | |
| **30** | ***Beth yw'r bumed sain yn y gair "marchnad"?*** | **n** | |
| **31** | ***Beth yw'r chweched sain yn y gair "cyffrous"?*** | **u** | |
| **32** | ***Beth yw'r chweched sain yn y gair "gwerthfawr"?*** | **f** | |
| **33** | ***Beth yw'r bumed sain yn y gair "gwahân"?*** | **â** | |
| **34** | ***Beth yw'r bedwaredd sain yn y gair "ffurfiol"?*** | **f** | |
| **35** | ***Beth yw'r drydedd sain yn y gair "gwreiddiol"?*** | **r** | |
| **36** | ***Beth yw'r seithfed sain yn y gair "enghraifft"?*** | **ff** | |
| **Marciwch 1 ar gyfer pob eitem cywir.** | | ***Cyfanswm*** | |

**G3. Seingoll**

***Rydyn ni'n mynd i wneud tasg lle dwi'n mynd i ofyn i ti dynnu ffwrdd rhan o air. Er enghraifft:***

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| **1** | ***Dwêd y gair "pendant". Nawr dwêd y gair "pendant" heb ddweud "pen".*** | **dant** | |

Os yn gywir: ***Da iawn. "Pendant" heb y "pen" yw "dant". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***"Pendant" heb y "pen" yw "dant". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| **Eitem** | | **Ateb** | **Sgôr (1/0)** |
|---|---|---|---|
| **2** | ***Dwêd y gair "golchi". Nawr dwêd y gair "golchi" heb ddweud "gol".*** | **chi** | |

Os yn gywir: ***Da iawn. "Gadael" heb y "ga" yw "dail". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***"Gadael" heb y "ga" yw "dail". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| **Eitem** | | **Ateb** | **Sgôr (1/0)** |
|---|---|---|---|
| **3** | ***Dwêd y gair "wythnos". Nawr dwêd y gair "wythnos" heb ddweud "nos".*** | **wyth** | |

Os yn gywir: ***Da iawn. "Wythnos" heb y "nos" yw "wyth". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***"Wythnos" heb y "nos" yw "wyth". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| **Eitem – *rhowch adborth cywir / anghywir a chywiro*** | | **Ateb** | **Sgôr (1/0)** |
|---|---|---|---|
| **4** | ***Dwêd "cefndir" heb y "dir"*** | **cefn** | |
| **5** | ***Dwêd "cynllun" heb y "cyn"*** | **llyn** | |
| ***Peidiwch rhoi adborth o'r pwynt hwn.*** | | | |
| **6** | ***Dwêd "cyfan" heb y "cy"*** | **fan** | |
| **7** | ***Dwêd "pwyllgor" heb y "gor"*** | **pwyll** | |
| **8** | ***Dwêd "datgan" heb y "dat"*** | **gan** | |
| **9** | ***Dwêd "gwybod" heb yr "od"*** | **gwib** | |
| **10** | ***Dwêd "gwerthfawr" heb y "fawr"*** | **gwerth** | |
| **11** | ***Dwêd "mewnol" heb yr "ôl"*** | **mewn** | |

***Nawr rydyn ni'n mynd i symud ymlaen at dynnu rhannau hyd yn oed llai i ffwrdd o'r geiriau. Fe rown ni gynnig ar ambell esiampl yn gyntaf.***

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 12 | ***Dwêd y gair "pam". Nawr dwêd y gair "pam" heb ddweud "p".*** | **am** | |

Os yn gywir: ***Da iawn. "Pam" heb y "p" yw "am". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***"Pam" heb y "p" yw "am". Beth am drio un arall?*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| Eitem | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 13 | ***Dwêd y gair "sŵn". Nawr dwêd y gair "sŵn" heb ddweud "n".*** | **sŵ** | |

Os yn gywir: ***Da iawn. "Sŵn" heb yr "n" yw "sw". Trïa'r rhain nawr.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Os yn anghywir: ***"Sŵn" heb yr "n" yw "sw". Trïa'r rhain nawr.*** Symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

| **Eitem – *rhowch adborth cywir / anghywir a chywiro*** | | Ateb | Sgôr (1/0) |
|---|---|---|---|
| 14 | ***Dwêd "llun" heb yr "n"*** | **llu** | |
| 15 | ***Dwêd "mawr" heb yr "m"*** | **awr** | |
| ***Peidiwch rhoi adborth o'r pwynt hwn.*** | | | |
| 16 | ***Dwêd "mwyn" heb yr "n"*** | **mwy** | |
| 17 | ***Dwêd "llawn" heb yr "n"*** | **llaw** | |
| 18 | ***Dwêd "dwys" heb y "s"*** | **dwy** | |
| 19 | ***Dwêd "croesi" heb y "cr"*** | **oesi** | |
| 20 | ***Dwêd "clicio" heb y "c"*** | **licio** | |
| 21 | ***Dwêd "criw" heb y "r"*** | **cyw** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **22** | ***Dwêd "cefn" heb y "f"*** | **cen** | |
| **23** | ***Dwêd "cost" heb y "s"*** | **cot** | |
| **24** | ***Dwêd "tro" heb y "r"*** | **tô** | |
| **25** | ***Dwêd "creu" heb y"r"*** | **cei** | |
| **26** | ***Dwêd "clir" heb yr "l"*** | **cur** | |
| **27** | ***Dwêd "trist" heb yr "r"*** | **tyst** | |
| **28** | ***Dwêd "balch" heb yr "l"*** | **bach** | |
| **29** | ***Dwêd "cryn" heb yr "r"*** | **cyn** | |
| **30** | ***Dwêd "glân" heb yr "l"*** | **gân** | |
| **Marciwch 1 ar gyfer pob eitem cywir** | | ***Cyfanswm*** | |